MAPPA

TREFNIADAU AMLASIANTAETHOL AR GYFER DIOGELU'R CYHOEDD

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2008/2009

CYNNWYS

2-4 CYFLWYNIAD

5-6 CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

7-8 FFRAMWAITH MAPPA

9 MAPPA YNG NGWENT - i. Achosion Achos

10 MAPPA YNG NGWENT - ii. Adroddiad blynyddol yr ymgynghorion lleyg

11 YSTADEGAU

12 ESBONIAD / SYLWADAU

13 AELODION Y BWRDD RHEOLI STRATEGOL / CONTACTS

Jane Coates
Prif Swyddog Prawf
Ardal Prawf Gwent

David Ward
Llywodraethwr Carchar
HMP Brynbuga a Phrescoed

Mick Giannasi
Prif Gwnstabl
Heddlu Gwent

CYFLWYNIAD

Cryfder MAPPA yw cydweithrediad effeithiol rhwng yr holl asiantaethau sy'n cyfranogi, yn cynnwys yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai, fel yr Awdurdodau Cyfrifol Dynodedig, a sefydliadau allweddol eraill sydd ag ymrwymiad a rennir i reolaeth ddiogel unigolion sydd wedi cyflawni troseddau rhyw a throseddau difrifol eraill. Cafodd y bartneriaeth honno ei chryfhau ymhellach gan gyflwyniad hyfforddiant Aml-asiantaeth MAPPA sydd, yn ogystal â datblygu'r sylfaen sgiliau sy'n hanfodol i'r maes gwaith hwn, wedi atgyfnerthu cysylltiadau cyfathrebu rhwng asiantaethau ac wedi hwyluso gwell dealltwriaeth o'n gwahanol rolau. Ceir manylion ar yr hyfforddiant hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad ond mae'n werth nodi bod sawl maes arall wedi mabwysiadu'r rhaglen ac mae'r Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA) wedi'i gydnabod fel model o arfer gorau.

CYFLWYNIAD (wedi'u parhau)

Y llynedd gwnaethom adrodd ar adolygiad MAPPA, a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r adroddiad dilynol 'Troi Bwriadau Da yn Arfer Da'. Cynhaliodd yr Arolygiaeth Arolwg Rheolwr Troseddwr manwl fel rhan o raglen genedlaethol, ym mis Mehefin 2008 a dyma baragraff agoriadol adroddiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar ei gasgliadau:

Dilynodd yr arolygiad hwn o waith craidd gyda throseddwyr yn fuan ar ôl dau ddarn arall o waith a gyflawnwyd yng Ngwent gan yr arolygiaeth hon, a gynhyrchodd ganlyniadau siomedig.

Mae'n glod mawr i Ardal Prawf Gwent, ynghyd â'i phartneriaid, iddi weithio'n galed i hyrwyddo gwelliant yn y misoedd ers hynny. Ymhellach, llwyddodd i ddangos bod ansawdd wedi gwella mewn nifer o feysydd allweddol, ac mae lle i'w llongyfarch am hynny. Roeddem yn benodol falch o weld bod peth o'i gwaith Risg o Niwed yn awr yn cael ei gyflawni at safon uwch.

(***Andrew Bridges***, *Prif Arolygydd Prawf EM*)

Fel rhan o ymrwymiad partneriaeth MAPPA Gwent i adeiladau ar y cyflawniadau hyn a chynnal ffocws tynn ac ymatebol ar reoli troseddwyr risg uchel, mae ad-drefnu diweddar yn Heddlu Gwent wedi cynnwys canoli ei swyddogaeth Diogelu'r Cyhoedd. Amlinellir rhagor o fanylion y trefniadau newydd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac mae'n cynnwys cyfeiriad at gyfrifoldebau sydd gan yr Heddlu o ran personau peryglus posibl [PDP]. Mae'r prosesau a weithredwyd gan y Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer delio â phersonau peryglus posibl wedi ei fabwysiadu'n genedlaethol, yn amodol ar ganlyniad asesiad o'r modelau arfer gwahanol sydd ar waith ar hyn o bryd ledled Cymru a Lloegr i reoli'r grŵp hwn o droseddwyr.

Mae lle o fewn y sylwadau agoriadol hyn i gynnig dim ond blas o'r ymagwedd ragweithiol, pwrpasol ac ymroddedig sy'n tanategu gwaith y MAPPA lleol mewn rheoli troseddwyr risg uchel a diogelu cymunedau rhag y niwed a achosir gan droseddu, yn arbennig troseddau rhyw a throseddau difrifol eraill, ond dylid hefyd gwneud sylw o'r rôl hanfodol sydd gan Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA mewn penderfynu polisi a sicrhau bod trefniadau yn cael eu defnyddio mewn modd strategol, perthnasol a grymus ledled Gwent.

Yn yr adroddiad fe welwch adran am y Bwrdd Rheoli Strategol yn nodi pwy sy'n cael ei gynrychioli arno a beth a wnânt, a byddai'n gam gwag ar ein rhan pe na baem yn cydnabod yma waith dau gydweithiwr ar y Bwrdd Rheoli Strategol sydd wedi gwneud gwaith allweddol mewn datblygu MAPPA ac sy'n ymddeol eleni.

Roedd Colin Berg, sydd wedi ymddeol eleni o safle Prif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy, yna aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol am gyfnod hir ac fe gymrodd ef y cyfrifoldeb o ymchwilio Cylchoedd Cefnogaeth, ymagwedd seiliedig ar y gymuned tuag at gynorthwyo troseddwyr rhyw i reoli eu risgiau eu hunain. Cafodd cyfraniad Colin i MAPPA argraff sylweddol a pharhaol ar y ffordd yr oeddem yn gweithio ac fe welir colli ei gyfraniadau heriol a chefnogol, ei sgiliau cyfathrebu eithriadol a'i ddealltwriaeth strategol o faterion yn fawr iawn.

Gwasanaethodd Bill Horne fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gwent o fis Ionawr 2001 tan ei ymddeoliad ym mis Mehefin 2009. Roedd Mr Horne yn Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol ac arweiniodd MAPPA drwy rai cyfnodau anodd iawn gyda chryn fedr, gweledigaeth a phenderfyniad diwyro i gyflawni newid cadarnhaol. Mae'r safonau uchel a osodwyd gan Mr Horne, yn ei rôl fel cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol a thrwy ei gyfraniadau mynych eraill, wedi llywio MAPPA yng Ngwent ar hyd llwybr o welliant parhaus ac mae'n gadael ar ei ôl etifeddiaeth broffesiynol a fydd o werth parhaol wrth i'n gwaith gyda throseddwyr risg uchel ddatblygu ac aeddfedu.

Dymunwn ymddeoliad hapus i Colin a Bill a diolchwn iddynt am eu holl ymdrechion dros y blynyddoedd.

Rydym wedi recriwtio Ymgynghorydd Lleyg arall i'r Bwrdd Rheoli Strategol i ymuno â Sally Williams sy'n brofiadol ac yn uchel ei pharch ac rydym yn aros am gymeradwyaeth y gweinidog cyn gwneud cyhoeddiad ynghylch y penodiad.

Mae pedwar is-grŵp MAPPA, a grëwyd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y trefniadau lleol, yn awr ar waith ac yn cyfarfod yn gyson. Yr is-grwpiau yw :

- Llety
- Hyfforddiant
- Cyfathrebu
- Archwilio a Pherfformiad

Rydym yn credu bod y strwythurau, y systemau a'r gweithdrefnau a sefydlwyd gennym yn rhoi ymateb cadarn a pherthnasol i'r galwadau cymhleth sy'n treiddio rheolaeth ddiogel troseddwyr rhyw a throseddwyr difrifol eraill yng Ngwent. Rydym yn gwybod ond yn rhy dda, serch hynny, yn y maes gwaith risg uchel hwn yn arbennig, nad oes lle i fod yn hunanfodlon ac rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio'n ddi-ildio o fewn partneriaeth MAPPA i sicrhau gwelliannau pellach ac yn cyfiawnhau hyder cymunedau lleol yn ein gallu i'w diogelu rhag niwed.

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Canoli Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu

- Gwnaeth adroddiad Heddlu Dyfed-Powys ar achos Craig Sweeney argymhelliad y dylai swyddogion heddlu diogelu'r cyhoedd ar y llinell flaen gael goruchwyliaeth benodol gan reolwyr llinell sy'n arbenigo mewn diogelu'r cyhoedd. Mae hyn nawr wedi ei gyflawni yn dilyn ad-drefnu Plismona Diogelu'r Cyhoedd Gwent.
- Yn dilyn penodiad Uwcharolygydd Diogelu'r Cyhoedd fe wnaeth Heddlu Gwent ganoli ei swyddogaethau Diogelu'r Cyhoedd yn bedwar tîm penodol.
- Yn ogystal â MAPPA ceir timau ar gyfer Amddiffyn Plant, Trais Domestig ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA).
- Dyma'r olaf o ugain argymhelliad adroddiad Sweeney i gael ei gyflawni. Mae wedi golygu llawer o gynllunio gofalus gan ei bod hi'n bwysig cael y broses yn iawn a pheidio â gadael meysydd plismona eraill yn brin o adnoddau.
- Mae cael un Ditectif Arolygydd gyda chyfrifoldeb am MAPPA nid dim ond wedi golygu lefel newydd o gysondeb ond hefyd wedi sicrhau y gall yr arferion gorau o'r tri rhanbarth plismona gael eu hailadrodd ledled ardal y llu. Mae cael dau Ringyll Diogelu'r Cyhoedd yn sicrhau y caiff y Swyddogion Heddlu Diogelu'r Cyhoedd ar y llinell flaen gefnogaeth dda ac y caiff eu gwaith ei fonitro'n agos.

Hyfforddiant Aml-asiantaeth MAPPA

- Un o nodau Cynllun Busnes MAPPA llynedd oedd cynnal pedwar digwyddiad hyfforddi aml-asiantaeth MAPPA. Gyda chymorth yr holl asiantaethau oedd ynghlwm yn MAPPA llwyddom i gyflawni hyn gyda chanlyniadau cadarnhaol iawn.
- Fe wnaethom hyfforddi dros 240 o ymarferwyr presennol a darpar ymarferwyr MAPPA gyda mewnbwn arbenigol gan ein hasiantaethau partner. Gyda chyflwyniadau a sesiynau cwestiwn ac ateb a ddarparwyd gan yr adrannau lechyd Meddwl Fforensig, Tai, Gwasanaethau Troseddu leuenctid, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu a mewnbwn ar y cyd gan y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf roedd yr holl bartneriaid a gyfrannodd wedi eu cynnwys.
- Cawsom adborth calonogol a defnyddiol a'n galluogodd i addasu'r hyfforddiant yn well ar gyfer anghenion hyfforddiant y cyfranogwyr.
- Mae'r hyfforddiant wedi ei gydnabod fel arfer gorau yn genedlaethol gan yr Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA). Mae llawer o waith hyfforddiant Gwent wedi ei addasu a'i fabwysiadu ar gyfer Llawlyfr Hyfforddiant Cenedlaethol MAPPA, sydd yn ganmoliaeth uchel.
- Gobeithiwn gynnal rhagor o ddiwrnodau hyfforddi MAPPA Gwent ond bydd ein ffocws ar gyflwyniad rhanbarthol Llawlyfr Hyfforddiant Cenedlaethol MAPPA gyda'n cydweithwyr o'r tair Ardal arall yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi ymagwedd genedlaethol gyson ac yn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau prin.

Astudiaeth Achos

Dim ond 15 oed oedd Anthony pan gafodd ei euogfarnu am drosedd ryw ddifrifol yn erbyn plentyn iau. Treuliodd ddwy flynedd mewn lleoliad diogel awdurdod lleol ac yna fe'i symudwyd i uned arbenigol, y tu allan i'r ardal, ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cyflawni troseddau rhyw. Yn y cyfnod cyn iddo ddychwelyd i'r gymuned dywedodd Anthony ei fod eisiau dychwelyd i ardal Gwent i fod yn agos i'w dad. Roedd y symudiad hwn yn cyd-ddigwydd ag ef yn dod yn oedolyn pryd y byddai cyfrifoldeb am ei oruchwyliaeth yn dod yn fater i'r Gwasanaeth Prawf.

Er mwyn sicrhau bod pob agwedd o'r risgiau a berwyd wedi eu hasesu cynhaliom gyfres o gyfarfodydd MAPPA lefel 2 yn cynnwys ystod eang o asiantaethau. Roedd ei Swyddog Gwasanaethau Troseddu leuenctid ynghyd â'r Gweithiwr Ôl-ofal o ardal ei gartref yn bresennol. Caiff yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf eu cynrychioli yng Nghyfarfodydd MAPPA bob amser ac ymunwyd â hwy gan gydweithwyr o'r Adran Tai a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o'r ardal oedd yn ei dderbyn.

Dynododd Heddlu Gwent Swyddog i gymryd cyfrifoldeb am ei oruchwyliaeth a fynychodd bob cyfarfod MAPPA. Yn dilyn asesiad risg trylwyr cytunwyd y gallai symud i eiddo awdurdod lleol yn agos at ei dad. Cafodd ei gysylltiad gydag unrhyw aelodau ifanc y teulu ei oruchwylio bob amser a gweithiodd staff gydag ef i adeiladu ar ei sgiliau byw'n annibynnol.

Drwy ymweliadau ar y cyd a chyfathrebu effeithiol, rheolwyd risg Anthony hyd at ddiwedd ei gyfnod goruchwyliaeth drwyddedig. Dynododd pob asesiad risg sydd ar gael, yn cynnwys asesiad NSPCC annibynnol, fod y risg yr oedd yn ei beri yn isel.

Nid yw Anthony wedi cyflawni unrhyw droseddau pellach, bydd ei weithiwr ôl-ofal, a fydd yn weithiwr achos iddo nes ei fod yn un ar hugain oed, yn cyfeirio yn ôl i MAPPA pe bai ganddi unrhyw bryderon am ei lefel risg.

FFRAMWAITH MAPPA

BETH YW MAPPA?

Set o drefniadau yw MAPPA i reoli'r risg a berir gan rai troseddwyr rhyw a threisgar. Dygant y Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai at ei gilydd yn ardal Gwent i fod yr hyn a adwaenir fel Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae nifer o asiantaethau eraill o dan ddyletswydd i gydweithredu gyda'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd, Timau Troseddu Ieuenctid, awdurdodau tai lleol a rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Canolfan Byd Gwaith a darparwyr monitro electronig.

Dibenion MAPPA yw:

- sicrhau bod asesiadau risg mwy cynhwysfawr yn cael eu cwblhau, gan fanteisio ar rannu gwybodaeth a gydlynwyd ar draws yr asiantaethau
- cyfeirio'r adnoddau sydd ar gael i ddiogelu'r cyhoedd orau rhag niwed difrifol

SUT MAE MAPPA YN GWEITHIO?

Caiff troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA eu dynodi a chaiff gwybodaeth amdanynt ei chasglu/rhannu ar draws asiantaethau perthnasol. Caiff natur a lefel y risg o niwed a berir ganddynt ei asesu a chaiff cynllun rheoli ei weithredu i ddiogelu'r cyhoedd.

Yn y rhan fwyaf o achosion caiff y troseddwr ei reoli o dan y trefniadau cyffredin a weithredir gan yr asiantaeth neu'r asiantaethau gyda chyfrifoldeb goruchwyliol. Mae ar nifer o droseddwyr serch hynny angen rheolaeth aml-asiantaeth gweithredol a chaiff eu cynlluniau rheoli risg eu paratoi a'u monitro drwy gyfarfodydd MAPP a fynychir gan amryw asiantaethau.

PWY YW'R TROSEDDWYR MAPPA?

Mae tri categori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (Categori 1)

Troseddwyr rhyw y mae angen iddynt hysbysu'r heddlu o'u henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybodaeth am unrhyw newidiadau dilynol.

Troseddwyr Treisgar (Categori 2)

Troseddwyr wedi eu dedfrydu i garchar/cadwraeth am 12 mis neu ragor neu eu cadw o dan orchmynion ysbyty. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys nifer fechan o droseddwyr rhyw nad sy'n gymwys ar gyfer cofrestru a throseddwyr a waharddwyd rhag gweithio gyda phlant.

Troseddwyr Peryglus Eraill (Categori 3)

Troseddwyr sydd ddim yn gymwys o dan gategorïau 1 neu 2 ond sy'n peri risg difrifol o niwed ar hyn o bryd, mae cyswllt rhwng y troseddu a'r risg a berir ac maent angen rheolaeth aml-asiantaeth gweithredol.

SUT Y CÂNT EU RHEOLI?

Ceir 3 lefel rheolaeth seiliedig ar y lefel o gydweithrediad aml-asiantaeth sydd ei angen i weithredu cynllun rheoli risg yn effeithiol.

Caiff troseddwyr eu symud i fyny neu i lawr lefelau fel sy'n briodol:

Lefel 1 - Rheolaeth Gyffredin

Mae'r troseddwyr hyn yn destun y trefniadau rheoli arferol a gymhwysir gan ba bynnag asiantaeth sy'n eu goruchwylio. Ond nid yw hyn yn gwahardd cyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau, drwy ViSOR a llwybrau eraill.

Lefel 2 - Rheolaeth Aml-asiantaeth Gweithredol

Mae'r cynlluniau rheoli risg ar gyfer y troseddwyr hyn yn gofyn am ymglymiad gweithredol amryw asiantaethau drwy gyfarfodydd diogelu'r cyhoedd aml-asiantaeth (MAPP) cyson.

Lefel 3 - Rheolaeth Aml-asiantaeth Gweithredol

Fel gyda lefel 2 ond bod yr achosion hyn yn ychwanegol angen ymglymiad uwch swyddogion i awdurdodi'r defnydd o adnoddau arbennig, megis gwyliadwriaeth heddlu neu lety arbenigol, a/neu i ddarparu trosolwg parhaus gan uwch reolwyr.

BETH YW RÔL Y BWRDD RHEOLI STRATEGOL?

Mae uwch gynrychiolwyr pob un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â MAPPA yn llunio Bwrdd Rheoli Strategol (BRhS) sy'n cyfarfod o leiaf yn chwarterol i fonitro'r trefniadau a chyfeirio unrhyw welliannau angenrheidiol.

Bydd y BRhS yn mesur effeithiolrwydd yn erbyn safonau cenedlaethol newydd MAPPA a gyflwynwyd ym mis Hydref 2007 er mwyn sicrhau safon gyffredin o drefniadau diogelu'r cyhoedd effeithiol a bod pob un o'r asiantaethau yn chwarae rhan lawn yn MAPPA.

BETH MAE'R YMGYNGHORWYR LLEYG YN EI WNEUD?

Mae angen i'r awdurdod cyfrifol benodi 2 ymgynghorydd lleyg i eistedd ar y BRhS. Mae'r ymgynghorwyr lleyg yn gweithredu fel arsylwyr annibynnol ond eto'n wybodus; gallant holi cwestiynau na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sydd â chysylltiad agos â'r gwaith efallai'n meddwl eu gofyn. Dônt hefyd a'u dealltwriaeth a'u persbectif i'r BRhS o'u cymuned leol - lle mae'n rhaid iddynt fyw neu fod â chysylltiad cryf â hi.

VISOR

Mae ViSOR yn gronfa ddata sy'n cadw manylion troseddwyr rhyw neu dreisgar ac unigolion peryglus eraill. Yn 2008, am y tro cyntaf, mae'r tair asiantaeth Awdurdod Cyfrifol MAPPA - yr heddlu, gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf - yn gallu gweithio ar yr un system TG sy'n eu galluogi i rannu asesiadau risg a gwybodaeth rheoli risg am droseddwyr treisgar neu ryw unigol yn brydlon i leihau perygl ail droseddu.

MAPPA YNG NGWENT

i: ASTUDIAETH ACHOS

Dedfrydwyd Mr Singh i 5 mlynedd mewn carchar gyda thrwydded estynedig am 5 mlynedd am drosedd o ddifrod troseddol (peryglu bywyd). Mae Mr Singh yn ddechreuwr tân dialgar ac roedd yr euogfarn presennol am dân yn ei lety. Mae ganddo euogfarn yn y gorffennol am losgi bwriadol ddau ddegawd yn ôl a oedd yn ymddangos fel dial wedi ei gynllunio oherwydd anghydfod cyflog. Deng mlynedd yn ôl ymosododd Mr Singh yn dreisgar ar fachgen 11 oed fel dial am sylwadau digywilydd a wnaed gan y bachgen.

Mae Mr Singh yn lleihau'r risg y mae'n ei beri, nid yw wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw waith yn ymwneud â throseddu ac mae tuedd ganddo i golli ei dymer. Er ar adeg ei ddedfrydu nad oedd unrhyw ddiagnosis iechyd meddwl canfyddadwy roedd hyn yn dal i beri pryder i'r cyfarfod MAPPA. Mae ganddo hanes yn y gorffennol o gamddefnyddio canabis ac yfed yn ormodol.

Daeth staff y carchar i'r cyfarfod MAPPA cyntaf i rannu gwybodaeth a chynorthwyo gyda'r cynlluniau ar gyfer ei ryddhau. Mewn cyfarfodydd dilynol fe wnaeth Cynllun Llety a Rheoli Risg (ARMS) Trothwy a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Fforensig gyfrannu i reolaeth y risg a berwyd. Unwaith y'i rhyddhawyd defnyddiodd y gwasanaethau iechyd meddwl wasanaethau darparwr cefnogi Sgiliau Byw'n Annibynnol i helpu Mr Singh i ail-setlo. I ddechrau bu Mr Singh yn byw mewn llety gwely a brecwast yn dilyn ei ryddhau cyn cael ei letya yn iawn yn yr awdurdod lleol. Gweithiodd adran tai'r awdurdod lleol yn agos gyda'r Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu wrth geisio canfod eiddo lle y gellir rheoli'r risg orau. Fe wnaethant fynychu'r holl gyfarfodydd MAPPA hyd at ac wedi ei ail-setlo i lety parhaol.

Yn dilyn ei ryddhau o'r carchar cafodd pob asiantaeth hi'n anodd iawn i ymgysylltu â Mr Singh a daethant yn fwyfwy pryderus am gyflwr ei iechyd meddwl. Gan fod hyd at bump asiantaeth yn ei weld yn rheolaidd gellid rhannu unrhyw bryderon oedd yn codi a gweithredu arnynt yn gyflym.

Cafodd Mr Singh ei secsiynu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a threuliodd bum mis yn yr ysbyty cyn ei ail-gyflwyno'n raddol i'r gymuned. Ers ei ryddhau o'r

ysbyty mae wedi derbyn cefnogaeth y Tîm Iechyd Meddwl Fforensig, ARMS Trothwy, y Gwasanaeth Prawf, ymwelwyr iechyd a gweithwyr cefnogi sgiliau bywyd.

Gan fod y cynllun rheoli risg yn gadarn a'r mecanwaith ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn ei le mae'r achos erbyn hyn yn cael ei reoli ar lefel 1. Mae'r holl asiantaethau sydd mewn cysylltiad â Mr Singh yn adrodd ar unrhyw bryderon neu newidiadau wrth ei Reolwr Troseddwr sy'n gweithredu fel pwynt canolog yn y cynllun rheoli risg. Nid yw Mr Singh wedi aildroseddu ers iddo gael ei ryddhau o'r carchar ac mae'n parhau i weithio ar ail-setlo i mewn i'r gymuned.

MAPPA YNG NGWENT

ii: ADRODDIAD YMGYNGHORWYR LLEYG

O'r diwedd, wedi cryn oedi, cymeradwywyd ail Ymgynghorydd Lleyg ar gyfer Gwent ym mis Hydref 2008, er ar adeg llunio'r adroddiad hwn nid ydym wedi cael cymeradwyaeth Gweinidogaethol. Gyda'n gilydd, gobeithiwn allu gwireddu ein cylch gwaith. Cydran allweddol o'r Cynllun Busnes 09/10 yw'r angen i sicrhau bod Aelodaeth Leyg yn cael ei chynnal a bod hyfforddiant ymsefydlu digonol yn cael ei ddarparu. Caiff hyn ei argymell hefyd ym Mharagraff 19 Canllawiau MAPPA: Ymgynghorwyr Lleyg. Rydym yn rhagweld y caiff hyn ei roi ar waith a'i redeg yn gyson heb fawr oedi.

Ni chafwyd llawer o drafod ar ddatblygiad Strategaeth Cyfathrebu a'r Gr p Cylchoedd Cefnogaeth, yn cynnwys gwirfoddolwyr, yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli Strategol ym mis Ionawr 2009, ond hyd yn hyn ychydig iawn o gynnydd sydd wedi ei wneud. Nod allweddol y ddau beth hyn yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cynyddu hyder ac, yn fwyaf pwysig, lleddfu ofnau ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Rhagwelwn y byddwn yn chwarae rhan amlwg yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth ymhlith y cymunedau demograffig hyn a grwpiau sydd â diddordeb. Mae aelodaeth y Bwrdd Rheoli Strategol, er yn wahanol iawn, yn gyson gyda'u dyletswydd i gydweithredu, sy'n galonogol. Gobeithiwn y bydd y gwahanol asiantaethau hyn yn ymwybodol o'n rôl monitro a'u bod yn barod i'n cefnogi os bydd angen.

Sally Williams
YMGYNGHORYDD LLEYG - MAPPA YNG NGWENT

Fe'm penodwyd (yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogaethol) fel ail Ymgynghorydd Lleyg MAPPA ym mis Hydref 2008. Hyd yma rwy'n teimlo nad ydwyf wedi cynghori ar unrhyw fater. Rwy'n parhau'n gadarnhaol.
Yn y cyfnod byr yr wyf wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol rwyf wedi fy nghalonogi gan y ffordd y mae MAPPA Gwent yn safoni ei brosesau er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru a Lloegr. Cydran allweddol o'r Cynllun Busnes 09/10 yw'r angen i sicrhau bod aelodaeth leyg yn cael ei chynnal a bod ymsefydlu a hyfforddiant digonol yn cael eu darparu.

Mae datblygiad strategaeth gyfathrebu a fydd yn mynd i'r afael â hyder y cyhoedd yn rhoi cyfle am ragor o ymglymiad gan Ymgynghorwyr Lleyg. Rwy'n rhagweld y byddaf yn chwarae rhan amlwg mewn codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau demograffig a grwpiau sydd â diddordeb. Mae cysondeb aelodaeth gan asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu yn galonogol. Yr wyf wedi gweithio gyda rhai o'r aelodau hyn yn y gorffennol ac mae gennyf hyder yn eu hymroddiad ac, os bydd angen, eu cefnogaeth i'm hymdrechion yn y rôl fonitro hon.

Margaret Lewis
YMGYNGHORYDD LLEYG - MAPPA YNG NGWENT

YSTADEGAU

Nifer o Droseddwyr cymwys i MAPPA ar 31 Mawrth, 2009	
Troseddwyr Rhyw Cofrestredig	396
Troseddwyr Treisgar	104
Troseddwyr peryglus eraill	3
CYFANSWM	**503**

Troseddwyr a reolir drwy gyfarfodydd MAPP – Lefel 2	
Troseddwyr Rhyw Cofrestredig	61
Troseddwyr Treisgar	41
Troseddwyr peryglus eraill	16
CYFANSWM	**118**

Troseddwyr a reolir drwy gyfarfodydd MAPP – Lefel 3	
Troseddwyr Rhyw Cofrestredig	2
Troseddwyr Treisgar	1
Troseddwyr peryglus eraill	1
CYFANSWM	**4**

Gorfodi ar gyfer troseddwyr a reolir drwy gyfarfodydd MAPP	
Dychwelwyd i gadwraeth am dorri trwydded	
Lefel 2	26
Lefel 3	0
CYFANSWM	**26**

Anfonwyd i gadwraeth am dorri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw (SOPO)	
Lefel 2	0
Lefel 3	0
CYFANSWM	**0**

Troseddau Difrifol Pellach yn cynnwys troseddwyr a reolir drwy gyfarfodydd MAPP		
Cyhuddwyd gyda throsedd ddifrifol bellach	Lefel 2	1
	Lefel 3	**0**
CYFANSWM		**1**

O'r rheiny a gyhuddwyd yn ystod y flwyddyn (Lefel 2 a 3 gyda'i gilydd) a'r rheini sy'n parhau wedi eu cyhuddo gyda Throseddau Difrifol Pellach llynedd, h.y. ar 31 Mawrth 2008:	
Dedfrydwyd o drosedd bellach ddifrifol	1
Canlyniad arall	0
Parhau wedi'i gyhuddo â throsedd bellach ddifrifol	0

Data pellach am Droseddwyr Rhyw Cofrestredig		
Troseddwyr Rhyw Cofrestredig yn:	Rhanbarth A – Casnewydd	143
	Rhanbarth B – Torfaen a Sir Fynwy	110
	Rhanbarth C – Caerffili a Blaenau Gwent	143

Cyfanswm nifer troseddwyr rhyw cofrestredig yng Ngwent yn ôl 100,000 y pen o'r boblogaeth	71

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig a rybuddiwyd neu a ddedfrydwyd o dorri gofyniad cofrestriad	24

Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw	
A geisiwyd	21
Rhoddwyd Gorchymyn Interim	0
Rhoddwyd Gorchymyn Llawn	13

Gorchmynion Hysbysu	
A geisiwyd	0
Rhoddwyd Gorchymyn Interim	0
Rhoddwyd Gorchymyn Llawn	0

Gorchmynion Teithio Tramor	
A geisiwyd	0
Rhoddwyd Gorchymyn Interim	0
Rhoddwyd Gorchymyn Llawn	0

ESBONIAD / SYLWADAU

Mae'r data ar niferoedd Troseddwyr Rhyw Cofrestredig yn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2009; h.y. ciplun ydyw. Mae gweddill y data yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2008 hyd 31 Mawrth 2009.

Troseddwyr cymwys i MAPPA - ceir nifer o droseddwyr a ddiffinnir yn y gyfraith fel rhai cymwys i'w rheoli drwy MAPPA, gan iddynt gyflawni troseddau rhyw penodol a threisgar a/neu eu bod ar hyn o bryd yn peri risg o niwed difrifol, er bod y mwyafrif (78% eleni) mewn gwirionedd wedi eu rheoli o dan drefniadau asiantaeth gyffredin yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA.

Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO) - y rhai hynny y mae yn ofynnol iddynt hysbysu'r heddlu o'u henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a hysbysu o unrhyw newidiadau dilynol. Mae methiant i gydymffurfio â gofynion hysbysu yn dramgwydd troseddol sydd ag uchafswm cosb o 5 mlynedd o garchar.

Troseddwyr Treisgar - mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar /cadwraeth am 12 mis neu ragor, neu a gadwyd o dan orchmynion ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys ar gyfer cofrestru a throseddwyr a waharddwyd rhag gweithio gyda phlant.

Troseddau eraill - troseddwyr sydd ddim yn gymwys o dan 2 gategori MAPPA arall ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg difrifol o niwed sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPP.

Torri ar drwydded - Bydd troseddwyr a ryddheir i'r gymuned yn dilyn cyfnod o garchar o 12 mis neu ragor yn destun trwydded ag amodau (dan arolygiaeth y gwasanaeth prawf). Os na chydymffurfir â'r amodau hyn cymerir camau gweithredu ynghylch y toriad ar amodau a gallai'r troseddwr gael ei alw'n ôl i garchar.

Trosedd ddifrifol bellach (SFO) - troseddau rhyw neu treisgar difrifol wedi eu rhestru yng Nghylchlythyr Prawf 22 yn 2008.

Canlyniad Arall - Mae canlyniad arall yn golygu bod yr achos wedi ei ddelio ag ef erbyn 31 Mawrth 2008, ond na chafodd y troseddwr ei ddyfarnu'n euog o Drosedd Bellach Ddifrifol e.e. cafodd y troseddwr ei ryddfarnu neu ni pharhawyd ag achos neu dyfarnwyd y person yn euog o drosedd lai. Gall y data gynnwys troseddwyr sy'n parhau wedi'u cyhuddo gydag SFO ar 31 Mawrth 2008 ac os mai dyna'r sefyllfa, nodir hynny.

Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw (SOPO) – gall llys hefyd wneud SOPO ar adeg delio â rhai troseddwyr rhyw neu pan fydd yr heddlu yn gwneud cais arbennig ar gyfrif ymddygiad y troseddwr yn y gymuned. Bydd y gorchymyn llawn yn parhau am isafswm o 5 mlynedd a gall barhau am gyfnod amhenodol. Bydd SOPO yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r person gofrestru fel troseddwr rhyw a gall gynnwys amodau, er enghraifft i atal troseddwr rhag loetran yn agos at ysgolion neu feysydd chwarae. Os bydd y troseddwr yn methu â chydymffurfio â (h.y. yn torri) gofynion y gorchymyn, gall gael ei ddwyn yn ôl i'r llys a gall fod yn agored i 5 mlynedd o garchar.

Gorchymyn Hysbysu – fe'i gwna'n ofynnol i droseddwyr rhyw a ddedfrydwyd dramor i gofrestru gyda'r heddlu, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag risgiau a berir ganddynt. Gall yr heddlu wneud cais i lys i gael y gorchymyn mewn perthynas â throseddwyr sydd yn y DU neu'n bwriadau dod i'r DU.

Gorchmynion Teithio Dramor - atal troseddwyr sydd ag euogfarnau am droseddau rhyw yn erbyn plant rhag teithio dramor lle bo'n angenrheidiol i wneud hynny i amddiffyn plant rhag risg niwed rhywiol.

Newidiadau o'r Llynedd - Yr unig newid arwyddocaol mewn ystadegau o'r llynedd yw gostyngiad mawr (23 i lawr i 4) yn nifer y troseddwyr a reolir gan gyfarfod lefel 3. Y rheswm am hyn yw bod adolygiad o'r holl droseddwyr rhyw gan yr heddlu llynedd wedi codi nifer o faterion datgeliad oedd angen eu trafod. Y llynedd roedd gofyniad i gynnal trafodaethau datgelu mewn cyfarfod lefel 3. Nid felly y mae hi bellach a chaiff materion datgelu eu hystyried YM MHOB cyfarfod MAPPA ac mewn rhai amgylchiadau gall y penderfyniad i ddatgelu gael ei wneud gan reolwyr asiantaeth gyffredin lefel 1.

MAPPA
AELODION Y BWRDD RHEOLI STRATEGOL

Cadeirydd, Adam Gotley ACO Prawf
Is-gadeirydd, Bill Horne Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gwent (wedi ymddeol)
David Ward, HMPS Llywodraethwr Carchar Brynbuga a Phrescoed
Uwcharolygydd Rhiannon Kirk - Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gwent
Sally Williams a Margaret Lewis, Ymgynghorydd Lleyg a Darpar Ymgynghorydd Lleyg
Nigel Brown, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent
Alison Elliot, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili
Stuart John, Pennaeth Cysylltiadau Corfforaethol Heddlu Gwent
Neil Howell, Cyfarwyddwr Tai Cyngor Bwrdeistref Torfaen
Colin Berg, Prif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy (wedi ymddeol)
Rudi Baronowski, Canolfan Byd Gwaith
Gareth Hale, Cydlynydd MAPPA
Dr Stephen Hunter, Cyfarwyddwr Meddygol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Fforensig Gwent
Andrew Wallsgrove, Rheolwr Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Casnewydd
Andrea Chichester, Gwasanaeth Monitro Serco
Nicky Kift, Uwch Nyrs Gwasanaeth Iechyd Meddwl Fforensig Gwent
Lin Slater, Nyrs Ddynodedig Amddiffyn Plant a LAC, NPHS, Rhanbarth De Ddwyrain Cymru
David Jeremiah, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Torfaen
Kevin Gibbs, Rheolwr Ardal Gwasanaethau Plant NSPCC
Gail Reed, Rheolwr Tîm, Tîm Diogelu'r Cyhoedd Gwasanaeth Prawf Gwent

CYSYLLTIADAU

Cadeirydd y BRhS
Adam Gotley
Ardal Prawf Gwent
Prif Swyddfa
Ty Cwmbrân
Stad Parc Mamhilad
Pont-y-pwl
Torfaen
NP4 0XD

Swyddog Arweiniol yr Heddlu
Ditectif Uwcharolygydd Rhiannon Kirk
Ty Caerllion
Stad Parc Mamhilad
Pont-y-pwl
NP4 0XJ

Arweinydd Carchardai
David Ward
Llywodraethwr Carchar Brynbuga
102 Stryd Maryport
Brynbuga
NP15 1AH

Cydlynydd MAPPA
Gareth Hale
Prif Swyddfa
Ty Cwmbrân
Stad Parc Mamhilad
Pont-y-pwl
Torfaen
NP4 0XD